## ATODLEN 3

## ARBEDION A DARPARIAETHAU TROSIANNOL MEWN PERTHYNAS Å RHAN XA O DDEDDF 1989 AC ATODLEN 9A I'R DDEDDF HONNO, A RHAN 2 O'R MESUR

### Hysbysiad o fwriad i wrthod cais i gofrestru o dan adran 79L(1)(a) o Ddeddf 1989

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi anfon hysbysiad at berson o'u bwriad i wrthod cais i gofrestru o dan adran 79(L)(1)(a) o Ddeddf 1989 (*hysbysiad o fwriad i gymryd camau*).

(2) Bydd yr hysbysiad yn cael ei drin, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, fel hysbysiad a roddwyd o dan adran 36(3) o'r Mesur (*gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol*) .

(3) Bydd y person sydd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 79L(3) o Ddeddf 1989, am ei ddymuniad i wrthwynebu cymryd y cam hwnnw, yn cael ei drin fel pe bai wedi rhoi hysbysiad o dan adran 36(6) o'r Mesur.

(4) Bydd gwrthwynebiad, a wnaed o dan adran 79L(3) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol yn erbyn cymryd cam, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi ei wneud yn unol ag adran 36(6) o'r Mesur.

(5) Bydd hysbysiad, a anfonwyd at y person yn unol ag adran 79L(5) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai'n hysbysiad a roddwyd yn unol ag adran 36(8) o'r Mesur.

(6) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, bydd hysbysiad yn parhau i gael effaith i'r graddau hynny, yn unig, ag y câi effaith pe bai wedi ei roi o dan adran 36 o'r Mesur.